# Ymgynghoriad i Adrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

**Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol gynradd gymunedol newydd a gynhelir sy'n gweithredu ar ddau safle tra bydd adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.**

DARLLEN CYFLYM/DOGFEN I BOBL IFANC

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

## Pam rydan ni'n ymgynghori eto?

. Rydan ni eisoes wedi gofyn am eich barn ar y cynigion yma yn 2025.

. Bu'n rhaid atal y broses ym mis Mawrth 2026 oherwydd her gyfreithiol hwyr ynghylch y cynnig ar wahân ar gyfer Ysgolion Catholig, a allai hefyd fod wedi cael goblygiadau ar gyfer ymgynghoriad ysgolion Saltney.

. O ganlyniad, doedd hi ddim yn bosibl i gwblhau'r ymgynghoriad o fewn yr amserlenni gofynnol.

. Ers hynny, mae rheolau newydd mewn grym (Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026) mae'n rhaid i ni eu dilyn.

. Felly, rydan ni'n dechrau proses ymgynghori newydd er mwyn sicrhau bod:
. Y broses yn dilyn y gweithdrefnau cyfreithiol cywir
. Pawb yn cael cyfle teg a chyfredol i rannu eu barn

. Mae'r Cyngor yn dal i gredu y dylid ystyried y cynigion, ond dydy dim penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud eto.

Ymgynghori

Ystyriaeth

Cynllunio

# Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn awyddus i gael eich barn ynglŷn â chynnig i adrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni'r ad-drefnu drwy:

. Cau Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Wood Memorial o 31 Awst 2027.
. Sefydlu ysgol gynradd gymunedol newydd wedi'i huno, a fydd i ddechrau'n gweithredu ar safleoedd y ddwy ysgol bresennol, o 1 Medi 2027.
. Datblygu, yn amodol ar ganiatâd cynllunio a chadarnhad o gyllid, ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd bwrpasol ar safle presennol Ysgol Saltney Wood Memorial, gyda 315 o leoedd (gan gynnwys 30 lle meithrin cyfwerth ag amser llawn), gyda dyddiad agor disgwyliedig o 1 Medi 2030.

**Eisiau mwy o wybodaeth?**

Os ydych chi eisiau cael gwybod mwy am ein cynlluniau, rydym wedi paratoi dogfen fwy manwl. Dilynwch y ddolen hon:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Proposal-To-Reorganise-Saltney-Ferry-C.P-And-Saltney-Wood-Memorial-C.P.aspx

# Beth ydym ni'n ei wneud?

- Mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn prosesau penodol wrth ystyried gwneud newidiadau sylweddol i ysgolion.
- Fel rhan o'r prosesau hynny rydym wedi dechrau trafodaeth ffurfiol i ofyn i chi am eich barn i'n helpu ni gyda'n proses gwneud penderfyniadau.
- Mae eich safbwyntiau'n bwysig iawn i ni ac fe fyddant yn cael eu rhoi i Gabinet y Cyngor pan fyddant yn gwneud penderfyniad ar adrefnu addysg gynradd yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac Ysgol Gynradd Saltney Ferry.
- Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n gyfreithiol rwymol sy'n amlinellu'r materion sifil, gwleidyddol, hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pob plentyn, waeth beth fo'u hil, crefydd, neu allu. Mae Erthygl 12 yn datgan bod gan bobl ifanc yr hawl i fynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt, ac i'r safbwyntiau hynny gael eu hystyried yn briodol.
- Bydd Cynghorwyr yn trafod eich safbwyntiau, materion a'r goblygiadau o adrefnu addysg gynradd yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac yna fe fyddant yn penderfynu beth fydd yn digwydd nesaf.

Ymgynghori

Ystyriaeth

Cynllunio

# Cefndir

Mae Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac  Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn ddwy ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu ardal Saltney. Yn hanesyddol mae lleoedd gwag wedi bod yn y ddwy ysgol ac mae'r amcanestyniadau'n nodi y bydd y duedd hon yn parhau. Mae ysgolion heb eu llenwi yn gostus i'w gweithredu ac yn adlewyrchu galw sy'n lleihau yn yr ardal. Hefyd mae angen gwaith atgyweirio costus, gwaith cynnal a chadw a gwelliannau addasrwydd ar y ddwy ysgol.

Fel awdurdod lleol mae gennym ni ddyletswydd i ddarparu'r nifer cywir o leoedd mewn ysgolion yn yr ardal iawn a sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau. Felly mae cynnig wedi ei gyflwyno i gau a chyfuno'r ddwy ysgol yn un cyfleuster o'r radd flaenaf gan ddefnyddio'r tir sy'n gysylltiedig â safle presennol Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

# Pam rydym ni'n ystyried newid pethau?

- Nid yw'r ddarpariaeth bresennol o ran lleoedd mewn ysgolion yn ardal Saltney yn cyd-fynd gyda nifer y dysgwyr. Mae rhagamcanestyniadau yn nodi y bydd yr anghydbwysedd hwn yn parhau gyda gormod o leoedd ar gael mewn perthynas â phoblogaeth y dysgwyr.
- Mae angen gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sylweddol ar Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood i fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â'u hadeiladau.
- Dyhead yr awdurdod lleol yw darparu'r amgylcheddau dysgu gorau posibl i helpu myfyrwyr i ffynnu. Credir y gellir cyflawni'r nod hwn drwy adeiladu cyfleuster modern o'r radd flaenaf ar gyfer pobl ifanc Saltney.
- Bydd uno Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn arbed costau drwy wella effeithlonrwydd gweithredol. Bydd yr uno hefyd yn dod â phrofiad ac arbenigedd staff o'r ddwy ysgol ynghyd mewn un sefydliad.

Ymgynghori

Ystyriaeth

Cynllunio

# Beth yr ydym yn ei gynnig?

Mae'r cyngor yn cynnig cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac i ddechrau agor ysgol gynradd wedi uno ar safleoedd presennol yr ysgolion. Byddai gan yr ysgol gynradd enw newydd, gwisg ysgol newydd ac un corff llywodraethu, un pennaeth ac un uwch dîm arweinyddiaeth.

Cynigir wedyn y bydd yr ysgol yn symud i adeilad newydd ar y tir sy'n gysylltiedig â'r safle presennol yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Byddai gan yr ysgol 315 o leoedd ynghyd â 30 o leoedd meithrin llawn amser. Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn agor ym Medi 2030.

# Opsiynau eraill

Status Quo -

- Byddai'r opsiwn hwn yn cynnal strwythur a fformat presennol yr ysgolion.

Gwnewch y lleiafswm -

- Byddai'r ysgolion yn cael eu hadnewyddu yn seiliedig ar y camau gweithredu a argymhellwyd yn yr asesiadau cyflwr ac addasrwydd diweddaraf, tra'n cynnal eu cyfluniad strwythurol presennol.

- Cyfuno'r ddwy ysgol ar eu safleoedd presennol tra'n buddsoddi yn eu cyfleusterau presennol.

# Beth yw manteision ac anfanteision y cynnig?

## Manteision

- Darparu digon o leoedd i fodloni anghenion yr ardal leol.
- Lleihau costau gweithredu'n sylweddol gan y byddai yna un ysgol yn hytrach na dwy.
- Sefydlu ysgol fodern newydd gyda gwell adnoddau i ddarparu gwell cyfleoedd i ddysgu.
- Rhoi cyfle i'r ddwy ysgol ddod ynghyd fel un gan gyfuno profiad ac arferion gorau'r ddwy ysgol i wella'r canlyniadau dysgu i blant.

## Anfanteision

- Cau'r ddwy ysgol ar eu ffurfiau presennol a cholli Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn gyfan gwbl.
- Posibilrwydd o ddiswyddiadau wrth symud o ddwy ysgol i un.
- Effaith pellter teithio ar y rhai hynny sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ar hyn o bryd gan y byddai'n rhaid iddynt deithio i'r ysgol newydd ar safle Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

# Amserlen

| Camau o'r Broses | Dyddiadau Allweddol* |
|---|---|
| Ymgynghoriad Ffurfiol | dydd Mawrth 16 Mehefin hyd at 11:59yh ddydd Mercher 29 Gorffennaf 2026. |
| Y Cabinet yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid symud ymlaen â'r cynigion | Medi 2026 |
| Y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad statudol ac yn cychwyn cyfnod gwrthwynebu | Hydref 2026 |
| Y Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu ac yn penderfynu p'un ai a ddylid gweithredu'r cynigion ai peidio | Ionawr 2027 |
| Llythyr hysbysiad o'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi gyda chanlyniad penderfyniad y Cabinet | Ionawr 2027 |

* gall y dyddiadau hyn newid yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y cabinet.

# Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Rydym wir eisiau gwybod beth yw eich barn am y cynnig

Gallwch roi gwybod i ni drwy nifer o ffyrdd.☞

Os hoffech chi gael copi papur o'r ddogfen hon neu ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni:

saltneyconsultations@flintshire.gov.uk

neu ffoniwch

01352 704018/704014

Gallwch ddweud wrthym beth ydych yn ei feddwl o ddydd Mawrth 16 Mehefin 2026. Rhaid i chi ymateb erbyn **11:59yh ddydd Mercher 29 Gorffennaf 2026.**

💻**Ar-lein**
Gan ddefnyddio'r ddolen i'r arolwg
https://www.smartsurvey.co.uk/s/saltneyprimaryreorganisation1/

📱

**Cod QR**

Gallwch ymateb i'r arolwg ar-lein drwy sganio'r cod QR

🖂**Ar bapur**
Gallwch ymateb yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad hwn:

Y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3TX

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Proposal-To-Reorganise-Saltney-Ferry-C.P-And-Saltney-Wood-Memorial-C.P.aspx

Diolch!